# Arwain 2026

Prifysgol Abertawe
Swansea University

## Anrhydedd a dyrchafiad i ysgolhaig o fri



Un o arweinwyr ac ysgolheigion mwyaf blaenllaw ac adnabyddus Prifysgol Abertawe yw enillydd Medal Wyddoniaeth yr Eisteddfod Genedlaethol eleni.

Mae'r Athro Siwan Davies yn ddaearyddwr ffisegol o fri rhyngwladol, ac yn awdurdod ar newid hinsawdd a phrosesau folcanig.

Caiff ei chydnabod fel un o sêr ymchwil mwyaf blaenllaw Cymru, sydd wedi cyfrannu'n aruthrol at astudio trwy gyfrwng y Gymraeg a hyrwyddo cyfleoedd i fenywod mewn gwyddoniaeth.

A hithau'n hanu o Drefdraeth ac wedi cael ei haddysg yn Ysgol y Preseli, mae Siwan Davies yn un o blant ardal y Garreg Las, ac yn wyneb cyfarwydd i wylwyr y cyfresi poblogaidd *Her yr Hinsawdd* ar S4C.

Mae'r anrhydedd diweddaraf yn dilyn ei dyrchafiad yn gynharach eleni i swydd Dirprwy Is-ganghellor dros Ymchwil, Arloesi a Menter Prifysgol Abertawe.

Fel rhan o dîm uwch-arweinwyr y Brifysgol, hi fydd yn arwain ar weithgarwch ymchwil ac arloesedd y Brifysgol, gan alluogi Abertawe i barhau i ffynnu fel sefydliad rhagorol a arweinir gan ymchwil â dylanwad byd-eang.

Ymunodd Siwan Davies ag Adran Ddaearyddiaeth Prifysgol Abertawe yn 2004 ar ôl graddio ym mhrifysgolion Rhydychen a Llundain a gweithio fel ymchwilydd ym mhrifysgolion Stockholm a Copenhagen. Mae wedi dal cadair bersonol yn y Brifysgol ers 2012 ac yn ddiweddarach daeth yn Bennaeth Ysgol Daearyddiaeth, Biowyddorau a Ffiseg y Brifysgol.

Wrth ei disgrifio fel ymchwilydd penigamp ac arweinydd ysbrydoledig, dywedodd yr Athro Gwenno Ffrancon, Cyfarwyddwr Academi Hywel Teifi:

"Yn ogystal â rhannu ei harbenigedd â'r genhedlaeth newydd o ymchwilwyr yn y Brifysgol, mae Siwan Davies wedi cefnogi'r Gymraeg ym mhob agwedd o'i gwaith.

"Mae wedi chwarae rhan flaenllaw yn y gwaith o ddatblygu ac addysgu darpariaeth gyfrwng Cymraeg y cyrsiau Daearyddiaeth ym Mhrifysgol Abertawe ble mae dros dri chwarter y cyrsiau gradd hynny ar gael yn y Gymraeg.

"Mae hefyd wedi gwneud cyfraniad amhrisiadwy wrth gyfleu canfyddiadau ymchwil gwyddonol i'r cyhoedd gan ennyn eu diddordeb mewn ffordd hawdd ei deall."

Roedd ei chyfraniad ar raglenni *Her yr Hinsawdd* yn deillio o'i thaith i ganfod sut mae cymunedau o'r Ynys Las i Ynysoedd y Maldives eisoes yn teimlo effeithiau newid hinsawdd. Rhannodd Siwan ei phrofiadau o adael y labordy ymchwil i ganfod mwy am effeithiau ac ymatebion cymunedau ar draws y byd i'r heriau penodol sydd yn eu hwynebu yn sgil newid hinsawdd. Mae hefyd yn llais a wyneb cyfarwydd ar y cyfryngau Cymraeg wrth drafod materion hinsawdd a gwyddoniaeth ar raglenni eraill fel *Dibendraw* a *Dan yr Wyneb*.

## Cydnabod cyfraniad eithriadol prifardd




Profiad arbennig a chofiadwy i Eisteddfodwyr o bob rhan o Gymru oedd y seremoni gadeirio deimladwy i anrhydeddu'r Prifardd Tudur Hallam yn Wrecsam y llynedd.

Roedd ei awdl fuddugol, a oedd yn dwyn y teitl 'Dinas', yn ymwneud â'i brofiad o ymladd salwch difrifol yn dilyn diagnosis o ganser.

Fel cydnabyddiaeth o'i gyfraniad eithriadol i lenyddiaeth a diwylliant Cymraeg, cyflwynodd Prifysgol Abertawe radd Doethur er Anrhydedd mewn Llenyddiaeth iddo ym mis Rhagfyr.

Bu'n aelod gwerthfawr o staff yr Adran Gymraeg am bron i chwarter canrif hyd nes iddo orfod ymddeol y llynedd oherwydd ei salwch. Ef oedd deiliad Cadair y Gymraeg yn Abertawe ers 2011, ar ôl cychwyn fel darlithydd yn yr Adran yn 1999 ac mae bellach yn Athro Emeritws yn yr Adran. Mae ei gyhoeddiadau'n cwmpasu amrywiaeth helaeth o bynciau ym maes y Gymraeg, gyda'i gyfrol ddiweddaraf, *Y Golau yn y Gadair*, a gafodd ei lansio'n gynharach eleni, yn cynnwys ei awdl fuddugol.



Wrth dderbyn ei Gymrodoriaeth er Anrhydedd, meddai'r ysgolhaig a'r prifardd: "Mae derbyn yr anrhydedd hon gan y Brifysgol yn fraint fawr i fi a'r teulu. Ces i yrfa hapus iawn ym Mhrifysgol Abertawe. Ces gyfle i weithio ag ysgolheigion amlwg mewn sawl maes, a braint bob amser oedd dysgu fy myfyrwyr a'u gweld yn datblygu a graddio. Fedraf ond dweud diolch a dymuno'r gorau i'r Brifysgol wrth iddi barhau i gefnogi'r Gymraeg tua'r dyfodol."

Ar ran y Brifysgol, meddai'r Athro Gwenno Ffrancon: "Mae cyfraniad Tudur Hallam i ysgolheictod y Gymraeg, i lenyddiaeth a diwylliant Cymraeg, ac i fywyd ei genedl yn helaeth a chyfoethog, ac roedd yn hyfryd gwybod ei fod yn cael ei gydnabod fel hyn."

Bydd cyfraniad arbennig gan Tudur Hallam ar sgrin i sesiwn 'Sgwennu yn Lleddfu Trawma' yn y Babell Lên ddydd Llun (3 Awst) yn yr Eisteddfod, lle bydd Mari Grug ac Ifan Phillips yn cael eu holi gan Dr Angharad Wyn.

# Ehangu gorwelion gradd yn y Gymraeg




Dathlu amrywiaeth y Gymraeg ac ehangu ei gorwelion yw nod cwrs BA Cymraeg ar ei newydd wedd ym Mhrifysgol Abertawe.

Bydd cynnwys y cwrs yn llawer ehangach na'r hyn y byddai gradd yn y Gymraeg wedi'i chynnig yn y gorffennol, esboniodd Pennaeth Adran y Gymraeg, Dr Miriam Elin Jones,

"Byddwn yn ymdrin â phob math o faterion sy'n berthnasol i'r Gymraeg heddiw," meddai.

"Yn ogystal â gramadeg a gweithiau llenyddol, byddwn hefyd yn ymdrin â phynciau fel hunaniaeth a chymdeithas, ac yn edrych hefyd ar amlddiwylliannedd a'r Gymraeg.

Ymysg y modiwlau yn y flwyddyn gyntaf mae 'Ieithoedd Lleiafrifol: Pŵer a Pholisi' a 'Byw Brwydr: Llenyddiaeth Wleidyddol'.

"Byddwn hefyd yn gosod cyd-destun rhyngwladol i'r iaith trwy ddangos nad yw'r Gymraeg wedi ei chyfyngu i Gymru, ac yn dysgu'n myfyrwyr am hawliau pobl i'r Gymraeg."

Mae Llenyddiaeth Taith yn fodiwl arall sy'n cyflwyno'r Gymraeg mewn ffordd newydd i fyfyrwyr, wrth ddod â gwahanol elfennau ynghyd.

"Mae llenyddiaeth o'r fath yn ffordd o ddangos sut mae Cymry wedi gweld y byd," meddai Miriam Jones. "Byddwn yn rhoi sylw amlwg i weithiau cynharach fel cerddi taith T H Parry-Williams, neu lyfrau teithio Eluned Morgan, a hefyd awduron mwy cyfoes fel Grug Muse.

"Rhan arall o'r modiwl hwn fydd gofyn i fyfyrwyr lunio taith lenyddol o'u hardal leol nhw, a dod i adnabod a gwerthfawrogi eu cynefin."

Bydd y cwrs gradd yn rhoi sylw i ffuglen wyddonol y Gymraeg hefyd, sy'n bwnc arbenigol i Miriam Jones. Mae ei chyfrol academaidd gyntaf ar y gweill ganddi ar hyn o bryd, *Hiraeth Amhosibl: Ffuglen Wyddonol y Gymraeg*, gyda Gwasg Prifysgol Cymru.

"Mae'n ddiddorol bod ffuglen wyddonol yn mynd yn ôl ymhellach na'r disgwyl yn y Gymraeg," meddai. "*Wythnos yng Nghymru Fydd* Islwyn Ffowc Elis yw'r enghraifft amlwg, ond mae 'Llythyrau o'r Lleuad' Ceiriog yn mynd yn ôl ganrif ynghynt."

Dywedodd ei bod yn hyderus y bydd y cwrs newydd yn denu myfyrwyr na fyddai wedi ystyried dilyn gradd yn y Gymraeg fel arall.

"Mae'r newidiadau i'r radd yn deillio o'r angen i ystyried o'r newydd beth sydd ei angen ar ein graddedigion," meddai.

"Mae modiwlau fel 'Y Gweithle Dwyieithog', 'Creu a Chyhoeddi yng Nghymru' a 'Cyfieithu' yn dangos pwyslais y cwrs ar gyflogadwyedd.

"Gyda'r angen am bob mathau o sgiliau yn y Gymraeg, ein gobaith yw y bydd ein cwrs gradd ar ei newydd wedd yn gosod sylfaen ar gyfer amrywiaeth helaeth o yrfaoedd.

"Peth arall sy'n werth ei gofio yw nad oes raid cael Lefel A yn y Gymraeg i ymuno â'r cwrs – y cyfan rydym yn gofyn amdano yw bod ein myfyrwyr wedi astudio o leiaf un pwnc trwy gyfrwng y Gymraeg."

Bydd Miriam Jones yn cadeirio sesiwn 'Ar daith: Stori llenyddiaeth taith a'r Gymraeg' yn y Babell Lên o dan nawdd Prifysgol Abertawe ddydd Mercher 5 Awst. Bydd cyfle i glywed Grug Muse, Jon Gower a Kathryn Jones yn trafod ymateb creadigol beirdd a llenorion i deithio'r byd ac yn ystyried y berthynas rhwng llenyddiaeth a lle.

# Archwilio darnau o iâ hynafol o Antarctica



Cafodd myfyriwr ymchwil mewn daearyddiaeth ffisegol gyfle i dreulio cyfnod yn yr Almaen yr haf diwethaf yn astudio darnau o iâ hynafol dros filiwn o flynyddoedd oed.

Olrhain lludw folcanig yn Antarctica i ddyddio newid hinsawdd yn y gorffennol yw pwnc ymchwil Carys Thomas wrth astudio ar gyfer gradd PhD o dan oruchwyliaeth yr Athro Siwan Davies.

"Yn ystod haf 2025, roedd tîm rhyngwladol o wyddonwyr yn gweithio mewn labordy iâ yn Sefydliad Alfred Wegener yn Bremerhaven, yr Almaen, yn prosesu dros 2,800 metr o iâ a ddaeth o Antartica," esboniodd Carys.

"Dyma'r golofn iâ ddi-dor hynaf erioed i gael ei drilio ar y ddaear, ac mae'r gwaith arni yn rhan o brosiect Ewropeaidd mawr o'r enw Beyond EPICA.

"Mewn gwirionedd, gellir ystyried y golofn fel 'capsiwl amser' wrth iddi storio sawl nodwedd fel swigod aer bach sydd wedi'u dal yn yr iâ ers dros 1.2 miliwn o flynyddoedd."

Yn sgil hyn, gall gwyddonwyr fesur yn uniongyrchol lefelau nwyon tŷ gwydr fel carbon deuocsid o gyfnodau ymhell cyn i fodau dynol ymddangos ar y ddaear.

"Mae hyn garreg filltir hanesyddol i wyddonwyr hinsawdd," ychwanegodd Carys, sy'n gyn-ddisgybl o YGG Bryn Tawe ac yn hanu o Glydach, Cwm Tawe.

Yn ogystal â helpu'r gwyddonwyr yn eu gwaith, roedd hi hefyd yn chwilio'n benodol am ludw folcanig hynafol sydd wedi'i gadw'n sownd yn yr iâ.

"Pan fydd llosgfynydd yn echdorri, mae'n dosbarthu gronynnau bach iawn o ludw folcanig neu teffra, sef darnau o wydr hynod o fân, i'r atmosffer," meddai.

"Mae'r gronynnau hyn yn cael eu cludo gan y gwynt cyn glanio ar len iâ Antartica, lle maen nhw'n cael eu rhewi a'u storio am filoedd ar filoedd o flynyddoedd. Drwy ganfod yr haenau hyn a'u hadnabod drwy eu cyfansoddiad cemegol unigryw, gallwn bennu yn union o ble ddaeth y lludw a phryd y digwyddodd pob echdoriad. Gallwn felly ddyddio'r iâ o'u hamgylch yn fanwl, yn debyg iawn i sut mae gwyddonwyr yn defnyddio cylchoedd coeden i bennu oed pren."

Llwyddodd Carys i gasglu lludw o fewn darn o iâ a oedd yn dyddio'n ôl tua 200,000 o flynyddoedd, a chafodd ddadansoddi'r samplau ymhellach ar ôl eu cludo'n ôl i Abertawe.

"Dw i'n hynod o falch o gael bod yn rhan o'r tîm yn Bremerhaven yr haf diwethaf," meddai. "Mae'r cyfan wedi bod yn brofiad gwych – gan gynnwys gweithio mewn labordy oedd tua -20°C, a dathlu fy mhen-blwydd yn 23 oed wrth y llif yn torri'r iâ!"

# Agor y drws ar ein hen hanes

Mae olion adeilad mawr o gyfnod y Rhufeiniaid sydd wedi eu darganfod ym Margam yn taflu goleuni newydd ar hanes Cymru, yn ôl archaeolegwyr sy'n gweithio ar y safle.

Daeth olion y fila Rhufeinig i'r golwg yn sgil prosiect cydweithredol rhwng Canolfan Ymchwil a Hyfforddiant Treftadaeth (CHART) Prifysgol Abertawe, Cyngor Castell-nedd Port Talbot ac Eglwys Abaty Margam.

Nod y prosiect, ArchaeoMargam, oedd dysgu mwy am dreftadaeth gyn-ddiwydiannol Margam, ac mae wedi dod â chymunedau, disgyblion,



myfyrwyr, gwirfoddolwyr a busnesau ynghyd o bob rhan o'r rhanbarth.

"Roedden ni bob amser yn meddwl bydden ni'n darganfod rhywbeth o'r cyfnod Brythonig-Rufeinig, ond wnaethon ni erioed freuddwydio y byddai mor drawiadol," meddai arweinydd y prosiect, Dr Alex Langlands, Athro Cysylltiol a Chyd-gyfarwyddwr CHART.

"Mae olion y fila ar raddfa fwy ac mewn gwell cyflwr o ran cadwraeth na welwyd erioed yn ne Cymru.

"Un peth gallwn ei gasglu yw bod Margam, lle efallai a roddodd ei enw i ranbarth hanesyddol Morgannwg, yn un o'r canolfannau pŵer pwysicaf yng Nghymru yn ystod y mileniwm cyntaf. Oherwydd ei leoliad daearyddol roedd ar y ffin rhwng ucheldiroedd garw gorllewin Cymru a'r Fro ffrwythlon i'r dwyrain."

Mae ArchaeoMargam hefyd wedi cynnal cloddiadau archeolegol ar dir i'r gorllewin i Eglwys yr Abaty, gan gynnig dros 900 o brofiadau ar y safle i ddisgyblion ysgol leol, Clwb yr Archeolegwyr Ifanc, gwirfoddolwyr a myfyrwyr o Grŵp Colegau Castell-nedd Port Talbot a Phrifysgol Abertawe.

# Llwybr newydd arloesol at yrfa mewn Meddygaeth



Gall disgyblion sy'n gadael ysgol gymryd y cam cyntaf tuag at fod yn feddyg trwy weithio am 12 mis fel Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd i'w Bwrdd Iechyd lleol.

Mae'r llwybr arloesol newydd ac unigryw hwn gan Ysgol Feddygaeth Prifysgol Abertawe yn cyfuno profiad ymarferol cynnar am dâl â gradd feddygol mewn pedair blynedd yn lle'r pump arferol.

"Mae'r cynllun cyffrous hwn yn cynnig dewis arall a llwybr newydd i ddisgyblion lleol sy'n byw yn ardaloedd Byrddau Iechyd Abertawe a Hywel Dda," esboniodd Dr Llinos Roberts, Pennaeth Clinigol y Coleg Meddygol yn y Brifysgol.

"Y nod ydi helpu myfyrwyr i bontio'n hyderus o'r ysgol yn uniongyrchol i yrfa mewn Meddygaeth.

"Yn ystod eu blwyddyn o brofiad gwaith, mi fyddan nhw'n cael profiad ymarferol gwerthfawr o weithio mewn amgylchedd proffesiynol, yn ogystal ag ennill cyflog a gweithio o fewn eu cymunedau cartref.

"Yn eu swydd, mi fyddan nhw hefyd yn cael cymorth academaidd a bugeiliol ffurfiol gan Brifysgol Abertawe, a fydd yn eu helpu i feithrin sgiliau astudio a sylfaen gref ar gyfer hyfforddiant meddygol."

Y gobaith yw y bydd y cwrs newydd hwn yn annog mwy o bobl leol i geisio am feddygaeth – ac yn dychwelyd i'w cymunedau i weithio yno yn y dyfodol.

"Rydyn ni'n chwilio am ffyrdd newydd o wneud meddygaeth yn fwy agored, a bydd y cwrs hwn yn ei gwneud hi'n haws wrth alluogi myfyrwyr i ennill cyflog a gwneud eu gradd o fewn cyfnod byrrach," meddai Llinos Roberts.

"Mae gan y cwrs hwn bwyslais cryf ar ddatblygu doniau lleol a chefnogi anghenion gweithlu'r Gwasanaeth Iechyd yn y dyfodol ac mae'n cynnig cyfle cyffrous newydd os ydych chi'n ddarpar feddyg sy'n awyddus i ddechrau eich gyrfa feddygol yn eich cymuned eich hun."

Bydd lle i 10 o fyfyrwyr ar y cwrs o fis Medi'r flwyddyn nesaf ymlaen, ac os bydd y peilot yn llwyddiannus y gobaith fydd cael cefnogaeth Llywodraeth Cymru i adeiladu arno yn y dyfodol.

# Canolfan efelychu'n mynd o nerth i nerth

Ers ei sefydlu dair blynedd yn ôl, mae canolfan arloesol ym Mhrifysgol Abertawe wedi mynd o nerth i nerth wrth dorri tir newydd mewn addysg gofal iechyd.

Caiff canolfan SUSIM, sy'n dysgu trwy efelychu a throchi, ei chydnabod fel un o'r canolfannau mwyaf blaenllaw o'i math yn y byd.



Ynddi, mae'r myfyrwyr yn derbyn hyfforddiant mewn ystafelloedd sy'n defnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf i ail-greu pob math o sefyllfaoedd yn y byd go-iawn, gan efelychu lleoliadau fel theatr ysbyty neu argyfyngau megis tanau neu ddamweiniau.

Mae ymrwymiad i ddarpariaeth gynhwysfawr drwy gyfrwng y Gymraeg hefyd wedi bod yn rhan greiddiol o SUSIM o'r cychwyn, yn ôl y pennaeth, yr Athro Jo Davies.

"Mae cynnwys y Gymraeg yn hanfodol wrth ddatblygu sgiliau gweithlu'r dyfodol," meddai. "Mae'r dechnoleg yn ein galluogi ni i ddatblygu efelychiadau Cymraeg law yn llaw â rhai Saesneg, ac mae'n wych fod cymaint o fyfyrwyr Cymraeg eu hiaith wedi gallu manteisio ar y dulliau arloesol hyn."

Dros y flwyddyn ddiwethaf, gyda chymorth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a sefydliad Addysg a Gwella Iechyd Cymru, mae SUSIM wedi datblygu cyfres o senarios newydd mewn cydweithrediad â gwahanol bartneriaid.

Mae un o'r rhain, sy'n ymwneud â menyw yn dioddef anaffylacsis ar ôl cael toriad Cesaraidd wrth roi genedigaeth, wedi ennill gwobr mewn cystadleuaeth genedlaethol i lunio a chyflawni senario efelychu clinigol arloesol. Cafodd y senario hon ei datblygu gan dîm aml-broffesiwn o fyfyrwyr bydwreigiaeth ac ymarferwyr adran llawdriniaethau Prifysgol Abertawe, gyda'r efelychiad yn gofyn am gyflymder wrth ddarganfod achos yr argyfwng, a chyfathrebu a chydweithredu effeithiol rhwng gwahanol broffesiynau.

Un o'r elfennau craidd a sicrhaodd y wobr iddyn nhw oedd eu defnydd o'r Gymraeg yn y senario, a oedd yn amlygu pwysigrwydd cymhwysedd diwylliannol mewn gofal iechyd.

Mae senario arall, a ddatblygwyd ar y cyd â Phrifysgol Aberystwyth a phartneriaid eraill, yn ymwneud â thrychineb mewn ardal wledig, ac eraill yn ymwneud â dilyn camau ABDCE mewn argyfwng meddygol, cwymp person hŷn, diogelu, argyfwng yn sgil rhoi cyffur anghywir i glaf, a gofal diwedd oes.

"Mae SUSIM wedi gwneud cyfraniad aruthrol i ddatblygu addysg gofal iechyd yn Abertawe, ac rydym falch iawn o fod wedi gallu ehangu ein gwaith, ac adeiladu ar ein llwyddiant a'n partneriaethau," meddai Jo Davies.

# Hyrwyddo'r Gymraeg mewn bydwreigiaeth

Cafodd darlithydd cyfrwng Cymraeg mewn bydwreigiaeth, ynghyd â dwy o'i myfyrwyr, gyfle i bwysleisio pwysigrwydd hyrwyddo'r Gymraeg yn y proffesiwn mewn cynhadledd genedlaethol yn ddiweddar.

Roedd Sharon Jones, Hwylusydd Clinigol Bydwreigiaeth Prifysgol Abertawe, yn annerch Coleg Brenhinol Bydwragedd Cymru, a newidiodd ei enw swyddogol o RCM Wales i RCM Cymru y llynedd.



"Roedd y gynhadledd yn gyfle gwych i hyrwyddo'r ymwybyddiaeth gynyddol o bwysigrwydd y Gymraeg o fewn Coleg Brenhinol y Bydwragedd.

"Fel rhywun sydd â chefndir clinigol fel bydwraig ymarferol cyn symud i faes addysg, ro'n i'n gallu cadarnhau pa mor hanfodol yw iaith wrth ddarparu gofal mamolaeth a newyddenedigol.

"Mae beichiogrwydd, genedigaeth a'r cyfnod newyddenedigol yn gyfnodau hynod emosiynol, ac mewn sefyllfaoedd o straen, poen neu bryder, mae pobl yn naturiol yn dychwelyd at eu hiaith gyntaf," meddai.

Er mwyn sicrhau'r ddarpariaeth hon i famau, mae angen cryfhau'r defnydd o'r Gymraeg mewn addysg glinigol hefyd, yn ôl Sharon Jones.

"Rhaid sicrhau bod myfyrwyr yn gweld ac yn clywed y Gymraeg yn cael ei defnyddio'n naturiol ar leoliadau clinigol, nid yn yr ystafell ddosbarth yn unig," meddai.

"Dyna pam fod angen cydweithio cryfach rhwng addysg a gwasanaethau iechyd er mwyn datblygu adnoddau dwyieithog o safon uchel, a chyfleoedd dysgu clinigol cyfrwng Cymraeg."

Bu dwy o'i myfyrwyr bydwreigiaeth, Mared Cole a Carys Jones, hefyd yn cymryd rhan yn y panel yn y gynhadledd.

"Ro'n i'n hynod o falch o weld y ddwy yn cael cyfle fel hyn," meddai Sharon.

"Roedden nhw'n gallu siarad o brofiad am bwysigrwydd defnyddio'r Gymraeg ar y ward er mwyn creu'r berthynas orau bosib â'r claf a chreu amgylchedd o ddiogelwch ac ymddiriedaeth."

"Yn y pen draw, yr un oedd neges y tair ohonom, sef bod yn rhaid gweld y Gymraeg fel elfen graidd o ansawdd gofal, nid fel rhywbeth dewisol neu ychwanegol mewn gofal clinigol."

# Helpu Gofalwyr i siarad Cymraeg gyda chleifion




Yn dilyn datblygiad cyffrous yn y Brifysgol eleni sy'n galluogi myfyrwyr cyfrwng Cymraeg i ddilyn darpariaeth Gymraeg ym maes Therapi Galwedigaethol, mae llyfryn poced 'Gofalu Trwy'r Gymraeg' wedi cael ei gyhoeddi gan Brifysgol Abertawe a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Mae'r llyfryn yn rhan o gyfres o adnoddau sy'n cefnogi'r Cynnig Rhagweithiol a nodau 'Mwy na Geiriau' Llywodraeth Cymru ac yn cyfrannu at ddatblygu gweithlu iechyd dwyieithog i Gymru. Argraffwyd y llyfryn gyda chymorth ariannol gan Sefydliad Addysg a Gwella Iechyd Cymru.

# Dathlu cyfraniad rhagorol Emily



Cyn-ddisgybl o Ysgol Ystalyfera sydd bellach yn diwtor yn Adran y Gymraeg Prifysgol Abertawe yw enillydd Gwobr Merêd y Coleg Cymraeg eleni.

Graddiodd Emily Evans gyda gradd dosbarth cyntaf mewn BA Cymraeg ym Mhrifysgol Abertawe ac mae ar fin cwblhau ei gwaith ymchwil fel myfyriwr PhD. Trwy ei gweithgarwch ehangach, mae Emily hefyd wedi dod yn un o brif hyrwyddwyr bywyd Cymraeg o fewn y Brifysgol a thu hwnt.

Mae'r wobr, a roddir yn flynyddol er cof am y Dr Meredydd Evans, yn cydnabod ac yn dathlu myfyriwr sydd wedi gwneud cyfraniad rhagorol i fywyd a diwylliant Cymraeg o fewn prifysgol ac yn ehangach.

Un o gyfraniadau pwysicaf Emily yw'r rhan flaenllaw a chwaraeodd wrth sefydlu a datblygu Aelwyd yr Elyrch, sef Aelwyd Urdd y Brifysgol. Yn aelod allweddol o'r criw sefydlu, fe weithredodd Emily fel Llywydd yr Aelwyd rhwng 2022 a 2024, a pharhau fel Is-Lywydd wedi hynny.

O dan ei harweiniad, bu'r Aelwyd yn fwrlwm o weithgarwch wrth baratoi ar gyfer cystadlaethau'r Eisteddfod ym Margam, gan ennill ei medalau cyntaf. Roedd y gamp hon yn dyst i dwf ac uchelgais y gymuned Gymraeg fywiog y mae Emily wedi chwarae rhan allweddol yn ei meithrin a'i chryfhau. Mae'r Aelwyd wedi datblygu'n gymuned gadarn, gynhwysol a chroesawgar, gyda 45 o aelodau bellach.

Yn ogystal, bu Emily yn arwain Adran Tŷ'r Gwrhyd gan greu lle Cymraeg croesawgar i blant a phobl ifanc gymdeithasu, datblygu sgiliau newydd ac adeiladu hunaniaeth Gymraeg gadarn y tu allan i'r ysgol. Wrth weithio yn siop lyfrau Tŷ'r Gwrhyd, bu Emily hefyd yn hyrwyddo'r Gymraeg yn y gymuned leol i bobl o bob oed a gallu ieithyddol, a chreu cysylltiad rhwng y gymuned, diwylliant Cymraeg a'r Brifysgol.

Dywedodd Lynsey Thomas, Pennaeth Darpariaeth Academaidd, Ddiwylliannol a Chreadigol Academi Hywel Teifi, a'i henwebodd am y wobr, ei bod yn llawenhau yn ei llwyddiant. "Mae ei chyfraniad yn enghraifft ragorol o sut y gall un myfyriwr, trwy arweiniad, ymrwymiad a gweledigaeth, gyfoethogi bywyd Cymraeg a diwylliant Cymraeg prifysgol gyfan a thu hwnt," meddai.

Wrth dderbyn ei gwobr, dywedodd Emily fod y fraint yn golygu llawer iawn iddi.

"Hoffwn ddiolch o galon i'r Coleg Cymraeg am y wobr ac am yr holl gefnogaeth dros y blynyddoedd diwethaf," meddai. "Mae astudio trwy gyfrwng y Gymraeg wedi bod yn amhrisiadwy i mi, a dw i wedi derbyn llu o brofiadau gwerthfawr gyda'r Coleg Cymraeg, Academi Hywel Teifi ac Adran y Gymraeg Prifysgol Abertawe."

# Helpu i hyfforddi pobl ifanc yn Fiji





Cafodd myfyriwr parafeddygaeth yn Abertawe brofiad bythgofiadwy yn Fiji yr haf diwethaf lle bu'n helpu i hyfforddi pobl ifanc yr ynys drofannol yn y Môr Tawel.

Treuliodd Lowri Lane chwe wythnos yn cymryd rhan mewn prosiect *Think Pacific*, sefydliad sy'n gweithio mewn partneriaeth â llywodraeth Fiji i drefnu cyfleoedd gwirfoddoli a phrofiad gwaith i fyfyrwyr. Roedd hi'n un o 20 o Brydain a oedd yn rhan o'r cynllun.

"Grymuso ieuenctid oedd nod y cynllun," esboniodd Lowri, a ddaw o Borthmadog yn wreiddiol. "Roedd gweithdai'n cael eu cynnal ar amrywiaeth o bynciau, ac roedd y rhai ro'n i'n cymryd rhan ynddyn nhw'n ymwneud ag iechyd ac iechyd meddwl.

"Roedden ni'n treulio'r wythnos gyntaf gyda'n gilydd yn dysgu am arferion y wlad, a sut oedd ymddwyn, ac wedyn roedden ni'n symud i fyw efo teulu. Roedd hynny'n brofiad arbennig iawn, yn enwedig treulio'r nosweithiau y tu allan i'r tŷ yn canu caneuon traddodiadol yr ynys, y tad efo'i gitâr, a'r plant yn ymuno.

"Uchafbwynt arbennig arall oedd y diwrnod y gwnes i redeg gweithdy fy hun yn dysgu CPR i bobl ifanc Fiji."

Cafodd gymorth ysgoloriaeth Dr Llŷr Roberts y Coleg Cymraeg i fynd ar y daith, cronfa sy'n cefnogi is-raddedigion sy'n astudio drwy'r Gymraeg i deithio dramor ar gyfer pwrpas addysgol sy'n berthnasol i'w hastudiaethau.

"Dw i'n hynod ddiolchgar am y profiad gwerthfawr dw i wedi'i gael, a bydd yr atgofion yn aros efo fi am byth," meddai Lowri, sydd ar fin cychwyn swydd gyda Gwasanaeth Ambiwlans Cymru yng Nghaerdydd ar ôl graddio'r haf yma.

"Dydw i erioed wedi gweld pobl mor hapus, er cyn lleied sydd ganddyn nhw o gymharu â ni. Dydyn nhw ddim yn gadael i amser eu gormesu, does ganddyn nhw ddim ffonau symudol a wi-fi, felly mae pawb yn gorfod diddori ei gilydd. Yn sicr mae gynnon ni lawer i'w ddysgu ganddyn nhw."



# Gofalu am fuddiannau myfyrwyr Cymraeg

Merch o'r Rhondda, sydd newydd raddio mewn Llenyddiaeth Saesneg, yw Swyddog Materion Cymraeg Undeb Myfyrwyr Prifysgol Abertawe am y flwyddyn nesaf.

Bydd Ruby Cradle yn gyfrifol am hyrwyddo'r iaith a'r diwylliant Cymraeg drwy'r Brifysgol, yn ogystal â gofalu am fuddiannau myfyrwyr Cymraeg.

"Dw i'n hynod o falch o'r cyfle i amlygu pwysigrwydd treftadaeth a diwylliant Cymru i'r holl fyfyrwyr," meddai Ruby Cradle, a gafodd ei hethol i'r swydd yn gynharach eleni.


"Mae'r diwylliant Cymraeg wedi bod yn rhan bwysig o fy mywyd ers pan o'n i'n ifanc, yn mynd i'r Eisteddfod gyda fy nheulu a chynrychioli'r ysgol yng nghystadlaethau'r Urdd.

"Fy ngobaith yw integreiddio bywyd Cymraeg traddodiadol ar draws pob agwedd o fywyd y Brifysgol trwy arddangos a dathlu ei werth, a bod yn bont rhwng y Gymraeg a'r gymuned ehangach yn y Brifysgol."

Mae Ruby yn ymuno â thîm o chwech o swyddogion llawn-amser yr Undeb, elusen sy'n gweithredu fel llais i tua 20,000 o fyfyrwyr a sydd â phresenoldeb ar ddau gampws y Brifysgol.

Un arall o'r chwech yw'r Swyddog Chwaraeon, ac mae yntau hefyd yn rhugl ei Gymraeg, er iddo gael ei eni a'i fagu yn Llundain. "Mae fy nhad o Gwmllynfell," esboniodd Dafydd Evans, sydd hefyd yn gapten Clwb Rygbi Prifysgol Abertawe.

"Fel siaradwr Cymraeg, dw i'n frwdfrydig dros ddefnyddio'r Gymraeg yn fwy lledled y Brifysgol. Dw i hefyd o dras cymysg ac yn deall y rhwystrau diwylliannol y gall myfyrwyr rhyngwladol eu hwynebu wrth geisio cymryd rhan mewn chwaraeon.



"Fy ngobaith yw gwneud chwaraeon ym Mhrifysgol Abertawe yn fwy cynhwysol, ac rwy'n awyddus i gyflawni hyn trwy gynnal mwy o sesiynau blasu a hyrwyddo chwaraeon mewnol er mwyn annog mwy o fyfyrwyr i gymryd rhan."